Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

# Ysgol Carreg Emlyn

**Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY**

**Tel: Clocaenog 01824 750636**

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

**www.ysgolcarregemlyn.cymru**

@carregemlyn

## Newyddion 12/9/22 News

### Dyddiadau i'w Cofio
### *Dates fo your Diary.*

**14, 21, 28/9/22** – Clwb Chwaraeon Bl 3-6 / *Yr 3-6 Sports Club*
**19/9/22** Gŵyl y Banc- Dydd Angladd y Frenhines / *Bank Holiday – Queen's Funeral Day*
**29/9/22** – Noson Wybodaeth i Rieni a Cyfeillion yr Ysgol / *Information Evening for Parents and Friends of the School. 7pm*
**3/10 -7/10/22**.Wythnos Beicio i'r Ysgol / *Cycle to School Week*
**5, 12, 19, 26/10/22** - Clwb Chwaraeon Bl 3-6 / *Yr 3-6 Sports Club*
**11/10/22** – Brechlyn Ffliw / *Flu Vaccine*
**18/10/22** Twrnament Pel Rwyd Merched yr Urdd *Girls Netball Tournament* Ysgol Glan Clwyd
**20 a 21/10/22** – Cwrs Beicio Bl 6 / *Yr 6 Bikeability Course.*
**28/10/22** - Cau dros Hanner Tymor / *Close for Half Term Close*
**7/11/22** Plant yn ôl yn yr ysgol/ *Children return to school*
**8/11/22** Lluniau Ysgol – unigolion a theuluoedd. *School Photos – individual and families.*
**23/12/22** Ysgol yn cau dros y Nadolig / *School closed for Christmas*
**9/1/23** Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Days*
**10/1/23** Plant yn ôl yn yr ysgol/ *Children return to school*

Bwydlen Cinio Ysgol/ School Lunch Menu
**Primary Menus - Denbighshire School Meals**
**Wythnos 2 / Week 2**

### Clwb Chwareon / *Sports Clubs*

Byddwn yn ail gychwyn Clybiau ar gyfer Bl 3-6 ar brynhawn Mercher **gan gychwyn yr wythnos yma.** A wnewch chi lenwi y ffurflen drwy'r linc erbyn **amser cinio heddiw** os ydych am i'ch plentyn aros i'r clwb. Bydd angen nol y plant o'r weithgaredd am 4.15pm. *We will be restarting Clubs for Yr 3-6 on Wednesday afternoons* ***starting this week****. Please fill in the online form* ***by lunchtime today*** *if you wish for your child to attend. The children will need to be picked up at 4.15pm.*



**Ffurflen/*Form***

**https://forms.office.com/r/rBvTjqfL4M**

### Cinio Ysgol – Parentpay
### *School Lunch*

Fe fydd Anti Helen (yr ysgrifenyddes) yn sortio ParentPay y plant newydd yr wythnos yma – cawsom ychydig o drafferthion technegol yr wythnos diwethaf ond gobeithiwn fod popeth wedi ei sortio erbyn hyn. Cofiwch fod plant Dosbarth Derbyn yn cael cinio ysgol am ddim erbyn hyn. *Auntie Helen (school secretary) will sort out ParentPay for the new children this week. We had technical problems last week but we hope that everything is sorted by now. Remember that Reception class have free school meals now.*

## Staff Newydd / New Staff

Dyma wynebau i'r enwau i chi – croeso i'r ysgol!
Here are faces to names – welcome to the school!



**Miss Elan Jones Bl 3 a 4**



**Mr Dafydd Williams Bl 5 a 6**

## Sialens Ddarllen yr Haf
## *Summer Reading Challenge*

Os ydy eich plant wedi cwblhau Sialens Ddarllen yr Haf yn y llyfrgell, cofiwch yrru'r tystysgrifau i'r ysgol i ni gael eu gweld ac i dynnu lluniau'r plant gyda'r tystysgrifau. *If your child has completed the Summer Reading challenge in the library, remember to send in the certificates to school so that we can take a photo of the children and their certificates.*




## Talu am Ffrwyth
## Fruit Money

Mae cost o £1 yr wythnos am ffrwyth boreuol. Felly bydd angen talu £8 am ffrwyth bore am yr hanner tymor. A wnewch chi dalu ar ParentPay cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda. The cost for fruit is £1 per week. Please remember to pay £8 for the fruit for the half term. Could you please pay this on ParentPay as soon as possible.

## Ymuno a'r Urdd / *Urdd Membership*

Mae'n amser ymaelodi gyda'r Urdd eto. Y gost yw £10 y plentyn. Gall unrhyw deulu gyda thri neu ragor o blant ymaelodi am bris gostyngol o £25 a phlant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim am £1 yn unig! Mae posib ymaelodi dros y we drwy fynd i https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/#

Hoffwn i holl ddisgyblion CA2 ymuno fel eu bod yn medru cymeryd rhan yn yr Eisteddfod, Celf yr Urdd neu Chwaraeon yr Urdd. Bydd gofyn i blant y CS ymaelodi os ydynt am gystadlu yn yr Eisteddfod sef canu neu lefaru yn unigol neu gystadlu yn yr adran Gelf. Mae pob cystadleuaeth Cyfnod Sylfaen i blant Bl 2 ac Iau ac felly mae plant Meithrin, Derbyn, Bl 1 a Bl 2 yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Os oes gennych unrhyw gwestiynnau ynglyn ag ymuno a'r Urdd mae croeso i chi gysylltu gyda athrawon yr ysgol am sgwrs. *It's time to join the Urdd again. The cost is £10 per child. Families of three or more children can join for a reduced rate of £25 per family and for £1per child for children that are eligible for free school meals. You can join on line by going to https://www.urdd.cymru/en/join/. We would like all KS2 children to join the Urdd so that they can take part in the Eisteddfod competitions, Urdd Craft competitions or Urdd Sports competitions. Foundation Phase children will need to join if they wish to compete in the Urdd Eisteddfod i.e. sing or recite a poem on their own, or take part in the Urdd Craft competition. All the competitions for Foundation Phase children are Yr 2 and under and therefore Nursery, Reception, Yr 1 and Yr 2 children compete against each other. If you have any questions about the Urdd please ask one of the teachers.*



## Cyfarfod Gwybodaeth a Cyfeillion yr Ysgol Information Evening and Friends of the School

Byddwn yn cynnal cyfarfod gwybodaeth ynglyn a'r Cwricwlwm i Gymru, sef y cwricwlwm newydd sydd yn dechrau rwan ym Medi 2022, ar nos Iau Medi 29ain am 7pm yn Neuadd yr Ysgol. Mae hwn yn agored i'r holl rieni. Ar ôl son am y Cwricwlwm bydd cyfle i ail sefydlu Cyfeillion yr Ysgol a dewis swyddogion newydd ar gyfer y flwyddyn yma. Braf fydd cael ail gychwyn trefnu gweithgareddau codi arian a chymdeithasol unwaith eto. *There will be an information evening to give you information about The Curriculum for Wales, which is the new curriculum that all schools are starting on this September, on Thursday September 29th at 7pm in the School Hall. All parents are welcome to attend. After giving you the information concerning the curriculum there will be an opportunity to restart The Friends of the School and choose officers for this year. It will be great to have fundraisers and social activities again.*



## Seren Pel Fasged!/ *Basketball Star!*

Mae Ifan o flwyddyn 6 wedi bod yn brysur iawn dros yr haf yn hyfforddi gyda tim Pel Fasged Cadair Olwyn dan 14 Cymru. Yn anffodus roedd ychydig wythnosau yn rhy ifanc I chwarae fel rhan o'r tim yn y gemau, ond bu'n helpu'r tim hyfforddi gan gefnogi y tim yn ystod y cystadleuthau.*Daeth y tim yn ail yn y Bencampwriaeth Iau yn Worcester ym mis Awst a derbyniodd Ifan fedal am fod yn ran o'r tim hyfforddi. Dwi'n siwr y bydd Ifan yn ran o'r tim eleni rwan ei fod ychydig yn hyn. Ifan from Yr 6 has had a busy summer training with the Wales Under 14s Wheelchair Basketball team. Unfortunately, he was a few weeks too young to play in the competitions but helped on the coaching side and supported the team in any way he could during the matches. The team came second in the Junior Championship in Worcester in August and Ifan also received a silver medal as part of the coaching team. I'm sure we will be seeing Ifan on court this year as part of the team!*

